# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL LLYWODRAETHWYR YR ALL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 22 MEDI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu Mr J Bowen (Cadeirydd) yn llywyddu.

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | U C Clay | A M Cook |
| J W Jones | H M Morris | D G Sullivan |
| L G Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Moore | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Kate Phillips | Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A C S Colburn, V M Evans, Y V Jardine, C Thomas a/ac T M White

78 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Y Cynghorydd D G Sullivan – Cofnod Rhif: 83 – fel a nodwyd yn flaenorol.

79 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion Panel Llywodraethwyr yr ALl a gynhaliwyd ar 25 Awst 2016 yn gofnod cywir.

80 **SWYDDI GWAG AR GYFER LLYWODRAETHWYR YR ALL. (ER GWYBODAETH).**

Rhoddodd Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr adroddiad "er gwybodaeth" am y rhestr bresennol o swyddi gwag llywodraethwyr yr ALl.

81 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i Banel Llywodraethwyr yr ALl wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhelliad yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraffau gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd Panel Llywodraethwyr yr ALl Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 82 CEISIADAU I FOD YN LLYWODRAETHWYR YR ALL. (I'W CYMERADWYO.)

Cyflwynodd Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr y ceisiadau ar gyfer swyddi gwag llywodraethwyr yr ALl yr oedd angen penderfynu arnynt.

CYTUNWYD:

1) Y dylai'r enwebiadau canlynol gael eu hargymell i'r Cabinet i'w cymeradwyo:

Ysgol Gyfun yr Esgob Gore - Mrs Margaret (Peggy) George (ailbenodi)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe – Mr David Meirion Howells (cais newydd).

## 83 CEISIADAU I FOD YN LLYWODRAETHWYR YR ALL A GEDWIR AR FFEIL. (ER GWYBODAETH.)

Rhoddodd Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr adroddiad "er gwybodaeth" am y rhestr bresennol o geisiadau i fod yn Llywodraethwyr yr ALl a gedwir ar ffeil.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.03 pm

**CADEIRYDD**